BWRLWM AERON

Chwefror 2016

CYSTADLEUAETH PÊL-RWYD YR URDD

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol a fu'n llwyddiannus drwy ddod yn fuddigol yng nghystadleuaeth Cylch Aeron a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.

Yn y rownd rhanbarthol llwyddodd y tîm wneud yn arbennig o dda gan ddod i'r 4ydd safle.

Tîm Pêl-rwyd

GALA NOFIO CENEDLAETHOL YR URDD

Llongyfarchiadau i'r 22 o ddisgyblion a deithiodd i Gaerdydd i gystadlu yng Ngala Cenedlaethol yr Urdd ar Ionawr 23ain yn y Pwll Nofio Cenedlaethol.

Bu'r disgyblion yn cystadlu mewn 13 o gystadlaethau gan gynnwys 10 ras gyfnewid. Llongyfarchiadau i dîm cyfnewid nofio rhydd bechgyn Bl. 5 a 6 a gipiodd y fedal efydd.

Aelodau'r tîm oedd Lee, Finley, Elis a Declan. Diolch i'r holl rieni a ffrindiau a deithiodd i Gaerdydd i gefnogi

CWRS PRESWYL GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG

Aeth disgyblion blwyddyn 3 ar daith dros nos i Wersyll Llangrannog yng nghwmni disgyblion o ysgolion eraill y sir. Cafwyd amser bendigedig yn profi gweithgareddau o bob math a gwneud ffrindiau newydd.

Y Tim nofio

CYSTADLEUAETH COGURDD

Llongyfarchiadau i Grace Williams am ennill rownd gyntaf cystadleuaeth Cogurdd yr Urdd ac i Bryn Southgate am ddod yn ail.

GWEITHDY TECHNIQUEST

Ymwelodd Mr Davies o Techniquest â Bl. 3 a 4 a'r Cyfnod Sylfaen gyda gweithdai ar gerddoriaeth.

Cafodd pawb amser wrth eu bodd yn arbrofi.

DILLAD AIL-GYLCHU

Cofiwch os oes gennych wisg ysgol i'w hail-gylchu dewch â nhw i mewn.

Mae galw mawr amdanynt. Diolch i Mrs Trigg am drefnu'r holl alwadau.

CROESO MAWR I

Eva, Amelia, Beca, Sofie, Leila, Damon,Leo a Shiloh sydd wedi cychwyn yn y Dosbarth Meithrin.

YMWELWYR O TSEINA

Ar Fawrth 14eg rydym yn disgwyl ymwelwyr o'n hysgol gyswllt yn Tseina, a fydd yn ymweld â ni dros ddau ddiwrnod.

CASTELL ABERTEIFI

Mwynhaodd plant Bl. 1 a 2 ymweliad a Chastell Aberteifi gan mai dyma yw eu thema y tymor hwn. Cafwyd diwrnod cyffrous gyda chyfle i wneud pob math o weithgareddau.

Diolch am y croeso.

RHIFAU PÊL-BONWS

19.12.15 Becky Wood

9.1.16 Marnie Davies

16.1.16 Joyce Thomas

23.1.16 Carolyn Davies

30.1.16 Becky Wood

6.2.16 Mrs Gaskell

ARAD GOCH

Gwnaeth holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen fwynhau perfformiad yn yr ysgol gan 'Arad Goch' - sef, 'Oes Rhaid i mi Gysgu!

Mae bob amser yn braf i weld eu perfformiadau creadigol ac arbrofol.

CROESO CYNNES

i'r staff newydd sydd wedi dechrau gyda ni—Sarah Williams, Elin Davies a Lucy Davies-Jones.

KERBCRAFT

Diolch i Mrs Efana Lloyd sydd wedi bod yn cynorthwyo Bl.1 gyda'u gwersi ar groesi'r ffordd.

Mae hi mor bwysig bod y disgyblion yn gallu cadw'n ddiogel ar y briffordd. Diolch

CWTSH DOSBARTH ALLANOL

Yn ddiweddar mae yna ddosbarth allanol wedi ei adeiladu ar y cae. Bydd hwn yn gyffaeliad mawr wrth i ni fedru mynd allan i astudio ac i wneud gweithgareddau.

Mae'r plant wedi ei enwi yn 'Cwtsh'.

Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am fodloni i gyfrannu at y gost.

CYMORTH CYNTAF

Derbyniodd disgyblion Blwyddyn 5 hyfforddiant Cymorth Cyntaf gyda'r heddlu.

Dysgodd y disgyblion sgiliau cymorth cyntaf ynghyd a sgiliau arbed bywyd.



DYDDIADAU PWYSIG

26.2.16 Gŵyl Offerynnol yr Urdd

1.3.16 Gorymdaith Gŵyl Dewi

2.3.16 Eisteddfod Cylch yr Urdd

3.3.16 Diwrnod y Llyfr

12.3.16 Eisteddfod Sir yr Urdd

17.3.16 Trawsgwlad Dyfed

18.3.16 Eisteddfod Ddawns yr Urdd

22.3.16 Eisteddfod CA.2

23.3.16 Eisteddfod Cyfnod Sylfaen

11.4.16 HMS

13.4.16 Trawsgwlad Ysgol

15.4.16 Trawsgwlad Cylch

FFAIR LYFRAU

Diolch i bawb a wnaeth brynu. Llwyddwyd i dderbyn llawer iawn o lyfrau newydd i'r ysgol

LLYWODRAETHWYR

Fe fu cynrychiolwyr o'r Cynghorau gwahanol a'r Llysgenhadon yn rhoi cyflwyniadau i'r llywodraethwyr yn esbonio eu rôl o fewn yr ysgol.

DAWNS SANTES DWYNWEN

Yn ôl y traddodiad, trefnodd Ffrindiau'r Ysgol Disgo i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen yn y Clwb Rygbi.

Cafwyd noson hwylus a diolch i bawb am gefnogi. Diolch i Owain Peckover am ei gyfraniad hael tuag at y noson.

Da iawn bawb am weithio mor galed!

Mwynhewch eich gwyliau.

oddi wrth Mrs Thomas

DYDDIADAU PROFION CENEDLAETHOL

Cofiwch fod Profion Cenedlaethol Rhifedd a Llythrennedd yn cael ei cynnal yn yr wythnos

3—10 o Fai 2016 i flynyddoedd 2 i 6.

BWRLWM AERON

February 2016

NETBALL URDD AREA COMPETITION

Congratulations to the school's team for winning the area competition which was held in Llangrannog recently.

In the County round they did exceptionally well coming 4th in the competition.

URDD NATIONAL SWIMMING GALA

Congratulations to the 22 pupils who travelled to Cardiff to compete in the National Urdd Swimming Gala on 23rd of January at the National Swimming Pool.

They competed in 13 competitions including 10 relay races. Congratulations to Yr.5 & 6 Boys Freestyle Relay team who won the Bronze Medal.

Members of the team were—Lee, Finley, Elis & Declan.

Many thanks to the parents and friends who travelled to Cardiff to support them.

RESIDENTIAL COURSE AT LLANGRANNOG URDD CAMP

Yr. 3 pupils spent one night at the Urdd Camp in the company of pupils from various schools from the County.

They all had a wonderful time experiencing various activities and making new friends.

Relay Team

COGURDD COMPETITION

Congratulations to Grace Williams for winning the first round of the Cogurdd Urdd competition and to Bryn Southgate for coming 2nd.

LLANGRANNOG URDD CAMP

Year 3 pupils enjoyed a night at the Urdd Camp in the company of other children from Ceredigion.

It was great to meet new friends and take part in all sorts of activities at Llangrannog.

TECHNIQUEST WORKSHOP

Mr Davies visited the school once again from Techniquest. Yr. 3 & 4 and the Foundation Phase had workshops on music.

Everyone had a great time experimenting.

CARDIGAN CASTLE

Yr. 1 and 2 pupils had a great time when they visited Cardigan Castle as it is their theme this term.

They all had an exciting time and the opportunity to do all sorts of activities.

Thank you for the welcome.

RECYCLING SCHOOL UNIFORM

Remember if you have school uniforms to recycle, please bring them in. There is a great demand for them. Many thanks to Mrs Trigg for organising

A WARM WELCOME TO

Eva, Amelia, Beca, Sofie, Leila, Damon, Lee and Siloh who have started in the Nursery Class.

VISITORS FROM CHINA

On March 14th we will welcome our visitors from our link school in China who will be visiting us for two days at the school.

KERBCRAFT

Our thanks to Efana Lloyd who has once again helped Year 1 learn about road safety.

It is so important for these children to understand how to look after themselves on the roadside.

A WARM WELCOME to new staff who have started with us—Sarah Williams, Elin Davies and Lucy Davies-Jones.

GOVERNORS

Representatives from the different councils and Ambassadors gave a presentation to the governors explaining their role in the school.

RHIFAU PÊL BONWS

19.12.15 Becky Wood

9.1.16 Marnie Davies

16.1.16 Joyce Thomas

23.1.16 Carolyn Davies

30.1.16 Becky Wood

6.2.16 Mrs Gaskell

IMPORTANT DATES

26.2.16 Urdd Instrumental Festival

1.3.16 St David's Day Procession

2.3.16 Urdd Area Eisteddfod

3.3.16 World Book Day

12.3.16 Urdd County Eisteddfod

17.3.16 Dyfed Cross Country

18.3.16 Urdd Dance Eisteddfod

22.3.16 KS.2 Eisteddfod

23.3.16 Foundation Phase Eisteddfod

11.4.16 INSET DAY

13.4.16 School Cross Country

15.4.16 Area Cross Country

ARAD GOCH

All the children from the Foundation Phase enjoyed a performance in the school by Theatre 'Arad Goch' - 'Oes Rhaid i mi Gysgu!

It is always a pleasure to see their creative and innovative performances.

CWTSH OUTSIDE CLASSROOM

Recently we have had an outdoor classroom built in the playfield.

This will be a great asset as the pupils will be able to study outside and do many different activities.

The pupils have decided to call the class 'Cwtsh'.

Thank you to Friends of the School for contributing towards the cost.

BOOK FAIR

Thanks to everyone that bought.

We have managed to buy many new books for the school

FIRST AID TRAINING

Year 5 pupils received first aid training recently from the police.

The pupils learned first aid skills as well as life saving skills.

Thank you to everyone for working so hard!

Enjoy your holiday

from Mrs Thomas

SANTES DWYNWEN DANCE

This has now become the tradition with Friends of the School organising a Disco to celebrate Santes Dwynwen Day at the Rygby Club.

A great night was had by all and thanks to everyone for supporting. Thank you to Owain Peckover for his generous contribution towards the night.

DATES FOR NATIONAL TESTS

Please remember the National Tests for Numeracy and Literacy will be held between the 3—10 of May 2016 for Yr.2—6.